



Bwyd i Feðdwl

Diweddariað COVID-19 gan Fwrðð
Diwyðiant Bwyð a Diod Cymru



22 Ebrill 2020

“Mae Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru yn bodoli i hyrwyddo bwyd a diod yng Nghymru ac mae'r argyfwng digynsail presennol a achosir gan COVID-19 wedi dangos bod y rôl honno'n fwy hanfodol nawr nag erioed. Nod y diweddariad hwn gan y Bwrdd yw darparu gwybodaeth reolaidd a chryno i'r diwydiant ac yn hollbwysig, a chyfeirio pobl at y wybodaeth sydd ei hangen ar hyn o bryd.



Rydym yn gweithio'n galed i helpu i ddod o hyd i atebion ymarferol ac i frwydro dros ddiwydiant Bwyd a Diod Cymru ar bob lefel. Mae ein perthynas ragorol â Llywodraeth Cymru yn bwysig dros ben, ond rydym hefyd yn gweithio'n ddiflino i sicrhau bod llais Cymru yn cael ei glywed yn San Steffan ar faterion a gadwyd yn ôl a hefyd gan y cymdeithasau masnach allweddol.

Rydym yn cydnabod bod amseroedd yn eithriadol o anodd i lawer iawn o fusnesau yn y sector ar hyn o bryd. Mae'r Bwrdd yn eich annog i gadw mewn cysylltiad fel y gallwn rannu'r safbwyntiau hanfodol y diwydiant gyda'r Llywodraeth a pharhau i frwydro dros eich busnes a'n sector bwyd a diod. "

Andy Richardson, Cadeirydd Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru

Camau allweddol o'r wythnos

*rhai gweithredoedd onð nið pob un


- Trwy gydol yr wythnos, rydyn ni wedi bod yn cynnal galwadau cynadledda dyddiol gydag aelodau'r Bwrdd a chydweithwyr uwch yn Llywodraeth Cymru i dynnu sylw at feysydd allweddol o'r diwydiant sydd wedi cael eu taro gan Covid-19, a'u trafod.
- Mae allforwyr bwyd a diod ar draws Cymru wedi bod mewn cysylltiad i godi pryderon am dagfeydd mewn Porthladdoedd Cludo nwyddau am fod nwyddau'n dod i mewn o Tsieina. Rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i geisio arweiniad a dod o hyd i ateb i'r broblem.
- Rydyn ni wedi clywed gan fusnesau bwyd a diod ledled Cymru fod busnesau'n cael trafferth cael yswiriant credyd yn ystod y cyfnod hwn. Rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a llunwyr polisi ar y ffordd orau ymlaen.
- Mewn partneriaeth ag Arloesi Bwyd Cymru, rydyn ni wedi lansio adroddiad sy'n amlinellu'r ystyriaethau allweddol i gynhyrchwyr bwyd a diod yng Nghymru o ran y risgiau sy'n dod yn sgil coronafeirws.
- Rydyn ni'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar wahaniaethu rhwng unigolion a warchodir ac unigolion bregus, a chymhwyster am flychau cymorth bwyd.
- Trwy weithio gydag arweinwyr clystyrau, rydyn ni wedi bod yn cymryd rhan mewn sgysiau clwstwr, gan gynnwys sgysiau am newid cynhyrchiant distyllfeydd i greu diheintydd llaw. Rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda chlystyrau eraill er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r materion sy'n effeithio ar sectorau penodol, a darparu'r arweiniad gorau iddynt yn ystod y cyfnod hwn.
- Yn ystod y cyfnod hwn, rydyn ni'n deall fod gan lawer o fusnesau bwyd a diod angen ddybryd i ddod o hyd i weithwyr ychwanegol, tra bod eraill yn cael trafferth cadw eu gweithluoedd oherwydd dirywiad y farchnad gweini bwyd neu allforion. I gynorthwyo hyn, rydyn ni wedi creu Grŵp Facebook - [Cydweithfa Gweithlu Bwyd a Diod Cymru](#) - i annog busnesau i gydweithio a rhannu adnoddau.
- Rydyn ni wedi bod yn rhannu adnoddau Llywodraeth Cymru, pecynnau cymorth iechyd meddwl a gwybodaeth bwysig arall ar ein cyfrif [Twitter](#). Yn fwy diweddar, rydyn ni wedi creu tudalen [LinkedIn](#) lle'r ydyn ni'n rhannu gwybodaeth debyg. Cofiwch ddilyn y ddwy i gadw'n gyfoes.

Prif straeon newyddion yr wythnos

- [Y distyllfeydd Cymreig sy'n troi jin yn boteli di-ri o ddiheintydd llaw am ddim](#)
- [Gweithio mewn partneriaeth i ddanfôn parseli bwyd ym Môn a Gwynedd](#)
- [Lansio adnoddau hwyliog i blant oed cynradd eu gwneud gartref](#)
- [Rhaglen cymorth i hyfforddi yn cyrraedd carreg filltir bwysig er mwyn helpu'r diwydiant bwyd a diod i lewyrchu](#)

Cymorth COVID-19


Cliciwch ôrwoðð i gael gwybodaeth ychwanegol am yr adnoddau syðð ar gael



Grant Pysgodfeyðð




Cymhwysedd ar gyfer y Gronfa Cadernið Economaidd




Ymestyn y Cynllun Cadw Swyddi ôrwy gyfnod y Coronafeirws



30 munud o gymorth AD am ôðim gan Mabis/Menter a Busnes



Gweminar FDF a Walker Morris: Cyngor cyfreithiol ar reolau ffyrlo



Aðnoððau iechyd medðwl a lles

Lleisiau o'r diwyðiant

Gyððag Alison Lea-Wilson, perchennog Halen Môn



Cwmni teuluol ydyn ni sy'n cynaeafu halen â llaw o ddŵr y môr sy'n cael ei godi o Afon Menai, ac mae gennym ein mygfa ein hunan lle'r ydyn ni'n cynhyrchu halen, siwgr a dŵr wedi ei fgyu, sy'n gynhwysyn label glân mewn amrywiaeth eang o brydau parod a sawsiau.

I ni, prif effaith yr argyfwng COVID 19 yw gorfod rhoi nifer o staff ar ffyrlo. Mae ein siop, ein canolfan ymwelwyr a'n caffi oll wedi cau, ac rydyn ni i gyd yn torchi llewys ac yn gwneud tasgau y byddem yn eu rhannu â chydweithwyr fel arfer.

Ar hyn o bryd, rydyn ni'n canolbwyntio ar gynhyrchu'r pethau sy'n gwerthu, gan gadw un llygad ar adeiladu stociau at y dyfodol pan ddaw ein cwsmeriaid eraill nôl atom. Rydyn ni wedi gorfod dysgu sgiliau newydd a ffyrdd newydd o weithio. Rydyn ni'n cynnal galwad zoom wythnosol â'n holl staff craidd ac yn cynhyrchu bwletin wythnosol i'w rannu â'r holl staff, gan gynnwys y rhai sydd ar absenoldeb ffyrlo – am ei bod hi'n bwysig bod pawb yn gwybod ein bod ni i gyd yn gweithio i gadw ein gwerthiannau'n mynd a chynnal ysbryd ein busnes.

Rydyn ni'n dwysáu ein gwaith gwerthu trwy ein siop ar y we hefyd ac yn ychwanegu mwy o eitemau o'n siop go iawn ati. Rydyn ni'n anfon newyddlen wythnosol at ddefnyddwyr, ac un bob pythefnos at ein cwsmeriaid masnachol.

Rydyn ni'n gwneud ein gorau glas i gadw mewn cysylltiad â'n cymuned yma ym Môn. Mae ein cogydd yn brysur yn cynhyrchu blychau o ddanteithion blasus fel ei fara a'i fflapjacs caramel halen enwog. Mae'r rhain yn cael eu harchebu ar lein a'u casglu o'r caban traeth ar ddiwedd y lôn. Mae pobl wedi dweud ei bod hi'n teimlo fel helfa drysor! Mae ein Jin Môr yn noddï tafarn rithwir sy'n cynnal set gomedi bob nos Sadwrn i godi arian at Ymddiriedolaeth Trussell ac mae ein cogydd yn paratoi cinio ar gyfer staff y feddygfa leol bob dydd Llun a dydd Gwener fel y gallan nhw rannu pryd bwyd ac ymlacio gyda'i gilydd am gyfnod byr.

Iechyd a diogelwch yw prif flaenoriaeth ein busnes ar hyn o bryd, yn ogystal â chadw'r busnes i fynd fel ein bod ni mewn sefyllfa dda pan ddaw'r argyfwng i ben.

Hoffem ddiolch i'r Llywodraeth am wrando ar y diwydiant ac am ddarparu cymorth a chefnogaeth, gan atgoffa'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau i ddal ati i wrando wrth i ni ddod o hyd i fusnesau nad ydynt wedi gallu cyrchu cymorth hyd yn hyn, a'n helpu ni i gyd i ailgydio yn yr economi - mae hi'n mynd i fod yn dipyn o dasg.

Cadwch mewn cysylltiad am ôðiweddariadau



Ymunwch â'n Grŵp Facebook i rannu gweithluoedd Cysylltwch â ni: Chair.FDWIB@gov.wales